# Comisiwn y Cynulliad

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Presiding Officer's office, 4th floor – Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 18 Mehefin 2014** |
| Amser: | **12.15 – 13.00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: AC(4)2014(7)

| | |
|---|---|
| Yn bresennol: | **Y Fonesig Rosemary Butler AC (Cadeirydd)**<br>**Peter Black AC**<br>**Sandy Mewies AC**<br>**Rhodri Glyn Thomas AC** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Claire Clancy, Y Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad (Swyddog)**<br>**Dave Tosh, Cyfarwyddwr Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (Swyddog)**<br>**Craig Stephenson, Prif Gynghorydd y Llywydd (Swyddog)**<br>**Gareth Watts (Swyddog)**<br>**Carys Evans, Prif Ysgrifennydd y Comisiwn (Swyddog)** |
| Eraill yn bresennol: | |

## 1 Cyflwyniad y Cadeirydd

1.1 Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Roedd Angela Burns AC a David Melding AC wedi anfon eu hymddiheuriadau.

1.2 Datganiadau o fuddiant

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.

1.3 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod 8 Mai.

## 2 Adolygiad o Effeithiolrwydd Comisiwn y Cynulliad

Yn unol ag arfer gorau llywodraethu corfforaethol ac egwyddorion llywodraethu Comisiwn y Cynulliad, cafodd adolygiad o effeithiolrwydd y Comisiwn ei gwblhau rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2014. Roedd yn asesu'r cynnydd yn ôl yr argymhellion a wnaed yn yr adolygiad cyntaf, a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2013, ac yn nodi rhai o'r camau gweithredu ar gyfer y dyfodol. Cynhaliwyd yr ymarfer gan Gareth Watts, Pennaeth Archwilio Mewnol y Comisiwn.

Canfu'r adolygiad fod y Comisiwn wedi parhau i wneud cynnydd. Roedd y Comisiynwyr wedi dangos trosolwg effeithiol o brosiectau arwyddocaol fel Dyfodol TGCh a'r prosiect Cyfieithu Peirianyddol. Roedd datblygu adnoddau fel dangosyddion perfformiad allweddol wedi arwain at ffocws strategol gwell, a mwy o atebolrwydd a thryloywder. Roedd Comisiynwyr unigol wedi dangos meistrolaeth gref ar eu portffolios perthnasol, gan arwain y drafodaeth ar eu meysydd cyfrifoldeb a meithrin cydberthnasau effeithiol gyda'r staff sy'n gweithio yn y meysydd hynny. Fel aelodau o fwrdd llywodraethu, teimla'r Comisiynwyr y gallant edrych ar faterion mewn ffordd gorfforaethol a rhoi eglurhad i'w grwpiau gwleidyddol a'r cyhoedd o'r penderfyniadau a wnaed.

Derbyniodd y Comisiynwyr y cynigion yn y papur, gan gynnwys datblygu cynllun gweithredu ar gyfer rhoi argymhellion yr adroddiad ar waith. Teimlwyd fod yr adolygiad wedi bod yn ymarfer gwerthfawr o ran nodi'r meysydd lle roedd y Comisiwn wedi gweithio'n dda a nodi'r cyfleoedd ar gyfer y 12 mis sydd i ddod. Cynhelir adolygiad pellach y flwyddyn nesaf. Diolchwyd i Gareth Watts am gynnal yr adolygiad.

## 3 Adroddiad Blynyddol ar Gydymffurfio â'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol

Yn unol â Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012 mae'n ofynnol i'r Comisiwn lunio Cynllun Ieithoedd Swyddogol. Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Comisiwn osod adroddiad gerbron y Cynulliad yn nodi sut y mae wedi rhoi'r Cynllun ar waith yn ystod y flwyddyn adrodd. Byddai'r adroddiad ar gyfer 2013-14 yn cael ei osod gerbron y Cynulliad i'w drafod ar 16 Gorffennaf.

Nododd y Comisiynwyr fod cynnydd da wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn a chymeradwywyd y staff am eu cyflawniadau yn y meysydd hyn, gan gynnwys:

- lansio Microsoft Translator;
- datblygu ffyrdd gwahanol o gefnogi'r Aelodau gyda'u gwaith pwyllgor;
- hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i holl staff Comisiwn y Cynulliad;
- y gwaith a wnaed gan gydgysylltwyr y Cynllun Ieithoedd Swyddogol ym mhob maes gwasanaeth; a

- chymorth gwell ar gyfer gwaith achos etholaethol dwyieithog yr Aelodau.

Cytunwyd ar y blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod i sicrhau arfer da ymhellach ym mhob rhan o'r sefydliad. Pwysleisiodd y Comisiynwyr bwysigrwydd y Cynllun yn cefnogi'r nod o wneud y Cynulliad yn sefydliad dwyieithog ac arwain y ffordd o ran datblygu gwasanaethau dwyieithog. Dylid rhannu arfer gorau pan fo'n bosibl fel y gall eraill ddysgu o brofiad y Cynulliad o gefnogi gweithlu dwyieithog.

## 4 Y wybodaeth ddiweddaraf gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Rhoddodd Claire Clancy grynodeb o gyfarfod Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad a gynhaliwyd ar 9 Mehefin. Trafodwyd y materion a ganlyn:

- Yr adroddiad ar weithgarwch archwilio mewnol, gan gynnwys gwybodaeth am lywodraethu a pharhad busnes;
- Adroddiad a chyfrifon blynyddol y Pwyllgor;
- Risgiau corfforaethol;
- Dull y Comisiwn o ran rheoli rhaglenni.

Byddai Cadeirydd y Pwyllgor yn mynd i gyfarfod y Comisiwn ym mis Gorffennaf i gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor.

## 5 Unrhyw Fusnes Arall

Adolygodd y Comisiynwyr Bolisi Cadw Cofnodion y Comisiwn a chytunwyd i ymdrin ag amgylchiadau pan fo effaith y cydymffurfiad â'r Polisi yn afresymol ac yn anghymesur.

**Yr Ysgrifenyddiaeth**
**Mehefin 2014**